

Perchennog/Meddiannydd

**Gofynnwch am:/Please ask for:** Toby Olden

**Fy Nghyf:/My Ref:**  
P064

**Eich Cyf:/Your Ref:**

**Dyddiad:/Date:**  
6 Chwefror 2018

Annwyl Syr/Fadam

**Parthed: Llwybr i'r Gymuned, Ystrad Rhondda – Terfyn cyflymder 20 milltir yr awr a mesurau gostegu traffig, Pontrhondda Road a Pontrhondda Avenue, Llwynypïa**

Fel y gwyddoch, o bosibl, mae'r Cyngor wedi ymgynghori ynglŷn â chynlluniau i gyflwyno mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn Pontrhondda Road a Pontrhondda Avenue, Llwynypïa.


Cafodd 75 o lythyrau eu hanfon a daeth 17 o ymatebion i law. Roedd 10 o blaid y cynllun ac roedd 6 yn erbyn y cynllun. Doedd un ymatebydd ddim o blaid nac yn erbyn y cynllun, ac roedd o'r farn bod materion parcio o amgylch yr ysgol yn bryder mwy i'r trigolion. Roedd 3 ymatebydd o blaid cyflwyno terfyn cyflymder 20 milltir yr awr, ond, nid mesurau gostegu traffig.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, dydy'r cynllun ddim wedi newid ers yr hyn oedd yn destun ymgynghoriad oherwydd mae'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr a'r mesurau gostegu traffig wedi cael eu croesawu yn gyffredinol.

Mae manylion y cynllun i'w gweld yn y llun, **P064-01**, sydd ynghlwm wrth y llythyr yma.

Y cam nesaf yw paratoi Hysbysiad Cyhoeddus sy'n nodi manylion y cynllun. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd fynegi unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Os hoffech chi gyflwyno sylwadau yn erbyn y cynllun, anfonwch nhw ar bapur, erbyn 27 Chwefror 2018, ar gyfer sylw'r Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu mewn neges e-bost i [GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/traffig](http://www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/traffig).

Yn gywir



Toby Olden  
**Uwch Swyddog Technegol, Rheoli Traffig**

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



Owner / Occupier

**Please Ask For/Gofynnwch Am:** Toby Olden

**Fy Nghyf/ My Ref:**  
P064

**Eich Cyf/ Your Ref:**

**Dyddiad / Date :**  
6<sup>th</sup> February 2018

Dear Sir / Madam

**Re: Ystrad Rhondda Community Route – 20mph Speed Limit and Traffic Calming Measures, Pontrhondda Road and Pontrhondda Avenue, Llwynypia.**

As you may be aware, the council has previously consulted on proposals to introduce road safety measures in Pontrhondda Road and Pontrhondda Avenue, Llwynypia.


75 letters were sent out and 17 replies received. 10 in support and 6 against. 1 respondent was neutral on the proposals and felt parking around the school was a bigger concern for the residents. 3 supported the introduction of a 20mph speed limit but not traffic calming measures.

Following the consultation, the scheme has not been amended from that which was previously consulted upon as the proposed 20mph speed limit and traffic calming measures have been broadly welcomed.

Details of the proposals are shown on the attached drawing **P064-01**

The next stage is a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any concerns they may have. If you wish to object to the proposals, you should do so in writing by 27<sup>th</sup> February 2018, to the Traffic Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at [trafficervices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficervices@rctcbc.gov.uk). For further information visit [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic) for details.

Yours faithfully



Toby Olden  
**Senior Technical Officer, Traffic Management.**

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

